

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR

P J Lucas

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach
CF40 2XX**

Ms.Karyl May (Ffôn: (01443) 424045)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, **Parc Hen Lofa'r Cambrian**, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 29 Mehefin 2016 am 5.00pm.**

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

- 2** **CYHOEDDIADAU**

- 3** **COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol yn rhai cywir.

- 27 Ebrill 2016
- Cyfarfod Blynyddol y Cyngor – 25 Mai, 2016

1 – 12

13 - 28

- 4** **LLYWODRAETHU AGORED:**

- 5** **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull

Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

6 Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor

Trafod adroddiad y Prif Weithredwr. **29 – 88**

7 Newid i Aelodaeth o Gyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol. **89 – 90**

8 Gweithgor Craffu ar Dlodi Tanwydd

Trafod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yng ngoleuni canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar Dlodi Tanwydd yn dilyn y Rhybudd o Gynnig a oedd dan drafodaeth y Cyngor ar 4 Mawrth, 2015, ac adroddiad dros dro'r Gweithgor fel y'i cyflwynwyd ar 22 Ebrill, 2015. **91 - 96**

9 RHYBUDDION O GYNIGION

- (1) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol B.Morgan, M.Forey, L.M.Adams, (Mrs) T.Bates, D.R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S. Bradwick, (Mrs) J.Bunnage, A.Calvert, P. Cannon, S.Carter, J.Cass, A.Crimmings, W.J.David, A.Davies, MBE, (Mrs) A.Davies, J.Davies, (Mrs) M.Davies, (Mrs) L. De Vet, J.Elliott, S.Evans, A.Fox, M.Griffiths, P.Griffiths, (Mrs) E.Hanagan, G.Holmes, G.Hopkins, (Mrs) S.J.Jones, L.Langford, R.Lewis, (Mrs) C.Leyshon, S.Lloyd, R.B.McDonald, C.Middle, K.Montague, A.Morgan, M.A.Norris, S.Pickering, S.Powderhill, K.Privett, S.Rees, (Mrs) A.Roberts, J.Rosser, G. Smith, R.Smith, G.Stacey, B. Stephens, (Mrs) M. Tegg, G.Thomas, R.K.Turner, (Mrs) J.S.Ward, M.J.Watts (Mrs) M.Webber, D.Weeks, C.J.Williams, D.H.Williams, T.Williams, C.J.Willis a R.Yeo:

“Women Against State Pension Inequality”

Bod y Cyngor hwn yn cefnogi'r ymgyrch Women Against State Pension Inequality (WASPI) sy'n ymgyrchu

yn erbyn yr anghyfiawnder a wnaed i fenywod a gafodd eu geni yn y 1950au (ar 6 Ebrill 1951 neu wedi hynny) ynglŷn â'r newidiadau i'w hoedran pensiwn y wlad o ganlyniad i Ddeddfau Pensiynau 1995 a 2011.

Mae'r Grŵp Ymgyrchu wedi canfod i:-

- Lythyron gael eu hanfon at fenywod a gafodd eu geni ar, neu ar ôl 6 Ebrill 1951 – 5 Ebrill 1953. Digwyddodd hyn 14 o flynyddoedd ar ôl i Ddeddf Pensiynau 1995 gael sêl bendith.
- Cafodd canran sylweddol o'r menywod yma lythyr yn nodi'r cynnydd sylweddol i'w hoedran Pensiwn y Wladwriaeth flwyddyn cyn eu Hoedran Ymddeol disgwylidig (h.y. pan oedden nhw'n 59 oed). Dim ond 2,3,4 a 5 mlynedd o rybudd y cafodd nifer eraill o bobl.
- Cafodd menywod gwta flwyddyn o rybudd mewn perthynas â chynnydd o 6 mlynedd yn eu Hoedran Pensiwn Ymddeol, o gymharu â dynion a gafodd 6 blynedd o rybudd mewn perthynas â chynnydd o flwyddyn i'w Hoedran Ymddeol hwythau.
- Dywed llawer o fenywod na chawson nhw lythyr erioed.
- Dywed rhai eraill i lythyron gael eu hanfon i gyfeiriadau anghywir, er i'r Adran Gwaith a Phensiynau gael gwybod am newid i'r cyfeiriad.

Mae'r Cyngor, felly, yn galw ar y llywodraeth i ailystyried y trefniadau pontio yn achos menywod a anwyd ar 6/4/1951 neu wedi hynny, fel nad ydyn nhw'n wynebu caledi oherwydd y newidiadau i'r pensiwn na chawson nhw wybod amdany'n nhw nes iddi fod yn rhy hwyr iddyn nhw wneud trefniadau eraill.

- (2) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G.Smith, (Mrs.)S.Jones, L.M.Adams, (Mrs) T.Bates, D.R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S. Bradwick, (Mrs) J.Bunnage, A.Calvert, P. Cannon, S.Carter, J.Cass, A.Crimmings, W.J.David, A.Davies,MBE, (Mrs) A.Davies, J.Davies, (Mrs) M.Davies, (Mrs) L. De Vet, J.Elliott, S.Evans, M.Forey, A.Fox, M.Griffiths, P.Griffiths, (Mrs) E.Hanagan, G.Holmes, G.Hopkins, L.Langford, R.Lewis, (Mrs) C.Leyshon, S.Lloyd, R.B.McDonald, C.Middle, K.Montague, A.Morgan, B.Morgan, M.A.Norris, S.Pickering, S.Powderhill, K.Privett, S.Rees, (Mrs) A.Roberts, J.Rosser, R.Smith, G.Stacey, B. Stephens, (Mrs) M.

Tegg, G.Thomas, R.K.Turner, (Mrs) J.S.Ward, M.J.Watts
(Mrs) M.Webber, D.Weeks, C.J.Williams, D.H.Williams,
T.Williams, C.J.Willis a R.Yeo:

Pensiwn y Glowyr


Mae'r Cyngor yn ymroddi i gefnogi Ymgyrch Cyfiawnder a Chwarae Teg Cymdeithas Bensiwn y Glowyr

Cafodd ei sefydlu i sicrhau cyfiawnder a chwarae teg i bawb sy wedi cyfrannu at Gynllun Pensiwn y Glowyr. Ei nod yw adennill arian o'r llywodraeth a sicrhau na chaiff y gronfa ei lleihau ymhellach.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr oedd gweithio yn y diwydiant glo yn beryglus ac yr oedd y glowyr hynny a oedd yn gweithio ledled Cymru a'r DU yn wynebu peryglon a risgiau bob dydd yn y gwaith. Yn hyn o beth, ni ddylid rhannu'r arian dros ben 50/50. Dylid aildrafod canran fwy realistig sy'n adlewyrchu risg y gwarantwyr, ac adenill yr holl arian sy'n berchen i lowyr y DU.

Mae'r Cyngor yn bwriadu ysgrifennu at weinidog perthnasol y DU, gan amlinellu'n hamcanion ni i frwydro yn erbyn anghyfiawnder y cynllun a gafodd ei sefydlu i gynnig diogelwch i lowyr ar ôl iddyn nhw ymddeol. Bydd y Cyngor yn gofyn am gefnogaeth aelodau seneddol lleol i bwysleisio'r anghyfiawnder ac i gefnogi'r ymgyrch yma ar lefel seneddol.

- 10 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At sylw: Pob aelod o'r Cyngor

22 Mehefin 2016

